

---

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 10.09.18

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Steve Collings, Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Jason Wayne Parry, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Sion Jones, Rheinallt Puw ac Annwen Daniels

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 o Fehefin 2018 fel rhai cywir.

### 5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 20.06.2018 a 17.07.18

### 6. DATGANIAD POLISI HAPCHWARAE

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn nodi bod y Datganiad Polisi Hapchwarae eisoes wedi ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Cadarnhawyd bod Asesiad Effaith Cydraddoldeb bellach wedi ei gwblhau ac adroddwyd bod gwaith ymchwil ar

effaith hapchwarae ar iechyd cyhoeddus a gyhoeddwyd yn Hydref 2017 wedi cael ei ystyried fel tystiolaeth berthnasol i'r asesiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y prif sylwadau canlynol gan aelodau:

- Pryderon yn parhau gyda'r nifer o hysbysebion hapchwarae sydd yn ymddangos ar y teledu
- Bod mynediad at hapchwarae yn rhy hawdd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag effaith hapchwarae ar deuluoedd a chymunedau, amlygwyd mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael o'r effaith. Adroddwyd bod y Comisiwn Hapchwarae ynghyd a'r Cyngor Iechyd yn bwriadu gwneud gwaith ymchwil ar yr effaith ar deuluoedd a chymunedau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chysondeb gwybodaeth ar draws Cynghorau'r Gogledd, nodwyd bod y Comisiwn Hapchwarae yn llunio canllawiau pendant i Awdurdodau Trwyddedu ar gynnwys y polisi. Amlygwyd bod arddull polisi Gwynedd wedi ei fabwysiadu ar draws y Gogledd oherwydd bod yr arddull yn glir a rhesymegol.

**PENDERFYNWYD derbyn y Datganiad Polisi Hapchwarae a'r Asesiad Cydraddoldeb yn unol â Deddf Hapchwarae 2005 a'i gymeradwyo ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:15am